

# Cyngor Cymuned Ysgubor y Coed Ysgubor y Coed Community Council

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 11 Ionawr 2017

**2016/49. Presennol:** Cyngorwyr Toland (yn y gadair), Goodman, Griffiths, Swanson a Thomas, Cyngorydd Sir ap Gwynn; Bu'r clerwr yn gweinyddu. Hefyd yn bresennol: Dr Ian Taylor.

**50. Ymddiheuriadau:** Cyngorydd Jenkins

**51. Cofnodion y cyfarfodydd blaenorol:** Derbyniwyd ac arwyddwyd cofnodion y cyfarfodydd ar 9 Tachwedd a 9 Rhagfyr.

**52. Datganiadau o ddiddordeb:**

Cyngorwyr Griffiths a Swanson: yr eglwys a'r Ystafell Haearn

**53. Materion yn codi:**

i. Trafodwyd y llythyr gan Richard Morgan. Nodwyd bod tai yn Nhal-y-Bont wedi colli rhan o'u gerddi i gael palmant yn y pentref. Rhaid oedd hefyd datgladdu cyrff yn y mynwentydd a'u hail-gladdu, felly byddai'n bosib gwneud rhywbeth tebyg yn Ysgubor y Coed. Nodwyd bod cynlluniau a luniwyd rhai blynyddoedd yn ôl sy'n datrys rhai o'r problemau technegol. Gellid rhannu'r rhain ag Adran Gynllunio Llywodraeth Cymru yn Llandudno a fydd yn llunio'r cynlluniau newydd ar gyfer y palmant. Trafodwyd gweld a oes modd sefydlu llwybr troed newydd yn y lleoedd mwyaf peryglus yn y gymuned y tu ôl i'r clawdd yn a phenderfynwyd cysylltu â Swyddog Llwybrau Cyhoeddus y Cyngor Sir, Eifion Jones. Penderfynwyd y byddai'r clerwr yn paratoi agenda ar gyfer y cyfarfod cyhoeddus i drafod y palmant ar 17 Ionawr.

**Pwynt gweithredu:** Clerwr i anfon dyddiadau'r cynlluniau at Gyngorydd Sir ap Gwynn a fydd yn ysgrifennu at y Gweinidog, Ken Skates, ac i lunio agenda. Cyngorydd Toland i siarad ag Eifion Jones.

ii. Penderfynwyd y byddai Cyngorydd Toland yn ysgrifennu at Mr David Anning am y brydles ar gyfer y lle chwarae a'r coed ar y safle. Bydd diwrnod o waith gwirfoddol ar 27 Ionawr yn dechrau am 9.00yb.

iii. Nodwyd yr ohebiaeth gan Mark Williams AS a Network Rail a'r llythyr gan Network Rail at Mrs Lillian Hughes. Nodwyd nad yw'r person a gafodd damwain ar y lôn i'r orsaf yn fodlon rhoi ei henw. Bydd y Clerwr yn anfon cyfeiriad e-bost y cyswllt yn Network Rail at Gyngorydd Toland.

iv. Nodwyd neges gan Simon Edwards am fin ailgylchu gwydr newydd posib.

v. Adroddwyd nad oedd Cyngorydd Goodman wedi cael digon o wirfoddolwyr ar gyfer y cynllun 'Cadw Llygad ar Gyflymder yn y Gymuned'.

vi. Penderfynwyd hysbysebu am Glerc newydd yn y *Papur Pawb* a siarad â chlerc Ceulanamaesmawr i weld a fyddai diddordeb ganddi yn y swydd. Trafodwyd yr angen am gyhoeddi dogfennaeth y Cyngor a'r wefan yn ddwyieithog a phenderfynwyd y byddai'n ddymunol iawn cael rhywun sy'n medru'r Gymraeg yn rhugl gyda sgiliau ysgrifennu cryf.

vii. Cafwyd adroddiad ar y cynllun Caru Ceredigion gan y Clerwr, a oedd wedi mynd i'r Cyfarfod Ymgynghorol â Chyngor Sir Ceredigion, ac adroddiad ar sefyllfa ariannol y Cyngor Sir gan Gyngorydd ap Gwynn.

**54. Cyllid:**

i. Penderfynwyd rhoi £50 i Galonau Cymru a £50 i Advice Canolbarth Cymru.

- ii. Cytunwyd i wneud y taliad canlynol: £141 (archwiliad)
- iii. Nodwyd bod taliad canlynol wedi'i dderbyn: £150 (CADW)
- iv. Trafodwyd a phasiwyd y gyllideb.
- v. Cytunwyd codi'r archebiant i £3500 i sicrhau bod digon o arian wrth gefn.
- vi. Bydd Cynghorwyd Goodman yn adolygu'r asesiad risg.
- vii. Bydd Cynghorydd Hustings yn adolygu adroddiad yr archwiliad mewnol.

**55. Gohebiaeth a Chyfathrebu:**

- i. Penderfynwyd aros ar fas data'r Gwasanaeth Achub a Tân.
- ii. Nodwyd yr ohebiaeth ganlynol gan Un Llais Cymru:
  - a) Battle's Over - A Nation's Tribute
  - b) Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol: Cyfarfod
- iii. Derbyniwyd yr ohebiaeth gan Gyngor Sir Ceredigion:
  - a) Ymgynghori ar amcanion llesiant 2017-18 Cyngor Sir Ceredigion: cafwyd esboniad o'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion gan Gynghorydd Sir ap Gwynn.
  - b) Blwyddyn Chwedlau 2017 a Blwyddyn y Môr 2018: bydd darn am fedd y morleidr a'r ffynnon yn digwydd gyda Mr Andy Rowlands, Biosffer Dyfi. Penderfynwyd ysgrifennu at Ann Jones am hyn.
- iv. Derbyniwyd a nodwyd y dogfennau canlynol gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda:
  - a) Cylchlythyr Siarad Iechyd
  - b) 'Ein Hiechyd, Ein Dyfodol'
  - c) Datganiad Ansawdd Blynyddol 2015/16
- v. Nodwyd *Clerk and Councils Direct* (Ionawr 2017).
- vi. Bydd Cynghorydd Thomas yn darllen cylchlythyr SARPA.
- vii. Adroddwyd bod y Cyngor wedi cael cwyn am y ceffylau ar Foel Fawr. Penderfynwyd trafod y mater gyda'r Swyddog Llwybrau Cyhoeddus yn y cyfarfod i drafod creu llwybr troed rhwng Glandyfi a Ffwrnais. Mae'r llwybr yn mynd yn fwdlyd oherwydd y ceffylau. Penderfynwyd hefyd y byddai Cynghorydd Toland yn trafod gosod arwyddion am y ceffylau ar Foel Fawr gyda Mr David Anning o'r RSPB.  
**Pwynt Gweithredu:** Cynghorydd Toland i siarad ag Eifion Jones a David Anning.
- viii. Nodwyd *The Clerk* (Ionawr 2017)
- ix. Nodwyd gohebiaeth gan Ms Michelle Symes am y cylfat yn Ffwrnais a chynlluniau ar gyfer carthffosiaeth yn y gymuned. Nodwyd bod angen cadw'r cylfat ar agor i osgoi llifogydd. Nid oes cynlluniau ar gyfer carthffosiaeth yn y gymuned ac nid yw hyn yn flaenoriaeth i'r Cyngor ar hyn o bryd.
- x. Trafodwyd yr etholiad sydd i'w gynnal ym mis Mai. Penderfynwyd gosod arwyddion am ddod yn gynghorydd cymuned ar yr hysbysfyrdau.

**56. Unrhyw Fater Arall:**

- i) Adroddwyd na fyddai ailstrwythuro cynghorau sir ar hyn o bryd. Byddant yn aros fel y maent ond bydd rhagor o gydweithio. Bydd Ceredigion a Phowys yn cydweithio ar yr economi. Mae Datblygu Cynllunio Rhanbarthol ar yr un ôl droed ag Iechyd a Gofal Cymdeithasol, h.y. yn ardal Bwrdd Iechyd Hywel Dda, ond mae Cyngor Sir Ceredigion yn awyddus i weld partneriaeth Canolbarth Cymru yn parhau. Bydd cydweithio ar addysg dros chwech neu bedair sir. Nid oedd newyddion ar gynghorau cymuned.

- ii) Nodwyd bod mainc goffa mam Mrs Victoria Bamford wedi pydru. Bydd Cynghorydd Toland yn siarad â David Anning am roi mainc newydd sydd gan y RSPB yn ei lle.

**57. Dyddiad y Cyfarfod Nesaf:** 8 Mawrth 2017